

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Branwen Ferch Llyr**

Enw'r Awdur: **Ifans, R.**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Gwerthfawrogi'r Chwedlau. Ifans, R.**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu
gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -
teitl/Cyfrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Y Ganolfan Astudiaethau Addysg**

Tudalennau a sganiwyd: **80 - 109**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Y Mabinogi CYCS7015C**

Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio: *E.L. Ham*

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 16.03.17.

Moodle/Powerpoint

BRANWEN FERCH LLŶR

Sarhad ac Iawn

Yr oedd Matholwch, brenin Iwerddon, wedi dod i Harlech yn Ardudwy i ofyn i Bendigeidfran, brenin Ynys y Cedyrn, a gâi briodi'r Gymraes, Branwen, chwaer Bendigeidfran. Priodas wleidyddol fyddai hon, gyda'r bwriad o gadarnhau'r cyfeillgarwch rhwng y ddwy wlad drwy briodi brenin un wlad â chwaer brenin y wlad arall. Caniatawyd hynny iddo, a mawr oedd y llawenydd.

A'r gyuedach a dechreussant. Dilit y gyuedach a wnaethant ac ymdidan. A phan welsant uot yn well udunt kymryt hun no dilyt kyuedach, y gyscu yd aethant. A'r nos honno y kyscwys Matholwch gan Uranwen. A thrannoeth, kyuodi a orugant pawb o niuer y llys; a'r swydwyr a dechreusant ymaruar am ranniat y meirych a'r gweisson. Ac eu rannu a wnaethant ym pob kyueir hyt y mor. Ac ar hynny dydgueith, nachaf Efnys[sy]en [y] gwr anagneuedus a dywedassam uchot, yn dywanu y lety meirch Matholwch, a gouyn a wnaeth, pioed y meirch.

'Meirych Matholwch brenhin Iwerdon yw y rei hyn,' heb wy.

'Beth a wnant wy yna?' heb ef.

'Yma y mae brenhin Iwerdon, ac yr gyscwys gan Uranwen dy chwaer, a'y ueirych yw y rei hynn.'

'Ay yuelly y gwnaethant wy am uorwyn kystal a honno, ac yn chwaer y minheu, y rodi heb uyghanyat i? Ny ellynt wy tremic uwy arnaf i,' heb ef.

Ac yn hynny guan y dan y meirych, a thorri y guefleu wrth y danned udunt, a'r clusteu wrth y penneu, a'r rawn wrth y keuyn; ac ny caei graf ar yr amranneu, eu llad wrth yr ascwrn. A gwneuthur an furyf ar y meirych yuelly, hyd nat oed rym a ellit a'r meirych.

E chwedyl a doeth at Uatholwch. Sef ual y doeth, dywedut anfuruaw y ueirych ac eu llygru, hyt nat oed un mwynyant a ellit o honunt.

'Ie, Arglwyd,' heb un, 'dy waradwydaw yr a wnaethpwyd, a hynny a uynhir y wneuthur a thi.'

'Dioer, eres genhyf, os uy gwaradwydaw a uynhynt, rodi morwyn

gystal, kyuurd, gyn anwylet gan y chenedyl, ac a rodyssant ym.'

'Arglwyd,' heb un arall, 'ti a wely dangos, [os] ef. Ac nyt oes it a wnelych, namyn kyrchu dy longeu.' Ac ar hynny arouun y longeu a wnaeth ef.

E chwedyl a doeth at Uendigeituran, bot Matholwch yn adaw y llys, heb ouyn, heb ganhyat. A chenadeu a aeth y ouyn idaw, paham oed hynny. Sef kennadeu a aeth, Idig uab Anarawc, ac Eueyd Hir. Y guyr hynny a'y godiwawd, ac a ouynyssant idaw, pa darpar oed yr eidaw, a pha achaws yd oed yn mynet e ymdeith.

'Dioer,' heb ynteu, 'pei ys gwypwn, ny down yma. Cwbyl waradwyd a geueis. Ac ny duc neb kyrch waeth no'r dugum ymma. A reuedawt rygyueryw a mi.'

'Beth yw hynny?' heb wynt.

'Rodi Branwen uerch Lyr ym, yn tryded prif rieni yr ynys honn, ac yn uerch y urenhin Ynys y Kedeyrn, a chyscu genthi, a gwedy hynny uy gwaradwydau. A ryued oed genhyf, nat kyn rodi morwyn gystal a honno ym, y gwneit y gwaradwyd a wnelit ym.'

'Dioer, Arglwyd, nyt o uod y neb a uedei y llys,' heb wynt, 'na neb o'e kynghor y gwnaet[h]pwyt y gwaradwyd hwnnw yt. A chyt bo gwaradwyd gennyt ti hynny, mwy yw gan Uendigeituran no chenyt ti, y tremic hwnnw a'r guare.'

'Ie,' heb ef, 'mi a tebygaf. Ac eissoes ni eill ef uy niwaradwydau i o hynny.'

E gwyr hynny a ymchwelwys a'r atdeb hwnnw, parth a'r lle yd oed Uendigeituran, a menegi idaw yr atdeb a diwedyssei Uatholwch.

'Ie,' heb ynteu, 'nyt oes ymwaret [o]e uynet ef yn anygneuedus, ac nys gadwn.'

'Ie, Arglwyd,' heb wy, 'anuon etwa genhadeu yn y ol.'

'Anuonaf,' heb ef. 'Kyuodwch, Uanawydau uab Llyr, ac Eueyd Hir, ac Unic Glew Yscwyd, ac ewch yn y ol,' heb ef, 'a menegwch idaw, ef a geif march iach am pob un o'r a lygrwyt; ac y gyt a hynny, ef a geif yn wynepwert idaw, llathen aryant a uo kyuref [a'e uys bychan] a chyhyt ac ef e hun, a chlawr eur kyflet a'y wyneb; a menegwch ydau pa ryw wr a wnaeth hynny, a phan yw o'm anuod inheu y gwnaethpwyt hynny; ac y may brawt un uam a mi a wnaeth hynny, ac nat hawd genhyf i na'e lad na'e diuetha; a doet y ymwelet a mi,' heb ef, 'a mi a wnaeth y dangneued ar y llun y mynho e hun.'

E kennadeu a aethant ar ol Matholwch, ac a uanagyssant idaw yr ymadrawd hwnnw yn garedic, ac ef a'e guerendewis.

. 'A wyr,' heb ef, 'ni a gymerwn gynghor.' Ef a aeth yn y gynghor; sef
 . kynghor a uedilyssant: os gwrthot hynny a wnelynt, bot yn tebygach
 . ganthunt cael kywilid a uei uwy, no chael iawn a uei uwy. A disgynnu a
 . wnaeth ar gymryt hynny. Ac y'r llys y deuthant yn dangneuedus. A
 70 chyweiraw y pebylleu a'r palieu a wnaethant udunt ar ureint kyweirdeb
 . yneuad, a mynet y uwyta. Ac ual y dechreuysant eisted ar dechreu y wled,
 . yd eistedyssant yna.

. A dechreu ymdidan a wnaeth Matholwch a Bendigeituran. Ac nachaf
 . yn ardiawc gan Uendigeituran yr ymdidan, ac yn drist, a gaei gan
 75 Uatholwch, a'y lywenyt yn wastat kyn no hynny. A medyl yaw a wnaeth,
 . bot yn athrist gan yr unben uychanet a gawssei o iawn am y gam.

. 'A wr,' heb y Bendigeiduran, 'nit wyt gystal ymdidanwr heno ac un nos.
 . Ac os yr bychanet genhyt ti dy iawn, ti a gehy ychwanegu yt wrth dy
 . uynnu, ac auory talu dy ueirch yt.'

80 'Arglwyd,' heb ef, 'Duw a dalo yt.'

. 'Mi a delediawf dy iawn heuyt yt,' heb y Bendigeituran. 'Mi a rodaf yt
 . peir; a chynnedyf y peir yw, y gwr a lader hediw yt, y uwrw yn y peir, ac
 . erbyn auory y uot yn gystal ac y bu oreu, eithyr na byd llyueryd ganthaw.'


. A diolwch a wnaeth ynteu hynny, a diruawr lywenyd a gymerth ynteu
 85 o'r achaws hwnnw. A thrannoeth y talwyt y ueirych idaw, tra barhawd
 . meirych dof. Ac odynd y kyrchwyt ac ef kymwt arall, ac y talwyt ebolyon
 . ydaw, yny uu gwbyl idaw y dal. Ac wrth hynny y dodet ar y kymwt
 . hwnnw o hynny allan, Tal Ebolyon.

90 *Fe ddychwelodd y brenin a'i arglwyddes i Iwerddon a chael croeso brwd.*
 . *Ymhen y flwyddyn ganwyd mab iddynt, Gwern fab Matholwch. Ond yn*
 . *fuan wedyn, newidiodd yr hinsawdd gwleidyddol.*

. A hynny yn yr eil ulwydyn, llyma ymodwrd yn Iwerdon am y guaradwyd a
 95 gawssei Matholwch yg Kymry, a'r somm a wnathoedit idaw am y ueirch. A
 . hynny y urodyr maeth, a'r gwyr nessaf gantaw, yn lliwaw idaw hynny, a
 . heb y gelu. A nachaf y dygyuor yn Iwerdon hyt nat oed lonyd idaw ony
 . chaei dial y sarahet. Sef dial a wnaethant, gyrru Branwen o un ystauell ac ef,
 . a'y chymell y bobî yn y llys, a pheri y'r kygyd, gwedy bei yn dryllyaw kic,
 100 dyuot idi a tharaw bonclust arnei beunyd. Ac yuelly y gwnaethpwynt y foen.

'Ie, Arglwyd,' heb y wyr wrth Uatholwch, 'par weithon wahard y llongeu, a'r yscraffeu, a'r corygeu, ual nat el neb y Gymry; ac a del yma o Gymry, carchara wynt ac na at trachefyn, rac gwybot hynn.' Ac ar hynny y diskynyssant.

Blwynyded nit llei no their, y buant yuelly. Ac yn hynny, meithryn ederyn drydwen a wnaeth hitheu ar dal y noe gyt a hi, a dyscu ieith idi, a menegi y'r ederyn y ryw wr oed y brawt. A dwyn llythyr y poeneu a'r amharch a oed arnei hitheu. A'r llythyr a rwymwyt am uon eskyll yr ederyn, a'y anuon parth a Chymry. A'r ederyn a doeth y'r ynys honn. Sef lle y cauas Uendigeiduran, yg Kaer Seint yn Aruon, yn dadleu idaw dydgweith. A diskynnu ar e yscwyd, a garwhau y phluf, yny arganuuwyt y



llythyr, ac adnabot meithryn yr ederyn yg kyuaned. Ac yna kymryt y llythyr a'y edrych. A phan darllewyt y llythyr, doluryaw a wnaeth o glybot y poen oed ar Uranwen, a dechreu o'r lle hwnnw peri anuon kennadeu y dygyuoryaw yr ynys honn y gyt...

A meicheit Matholwch a oedynt ar lan y weilgi dydgueith, yn troi yg kylch eu moch. Ac o achaws e dremynt a welsant ar y weilgi, wy a doethant at Matholwch.

'Arglwydd,' heb vy, 'henpych guell.'

'Duw a rodo da ywch,' heb ef, 'a chwedleu genhwch?'

'Arglwyd,' heb wy, 'mae genhym ni chwedleu ryued; coet rywelsom ar y weilgi, yn y lle ny welsam eiryoet un prenn.'


'Llyna beth eres,' heb ef. 'A welewch chwi dim namyn hynny?'

'Gwelem, Arglwyd,' heb wy, 'mynydd mawr gyr llaw y coet, a hwnnw ar gerdet; ac eskeir aruchel ar y mynydd, a llynn o pop parth y'r eskeir; a'r coet, a'r mynydd, a phob peth oll o hynny ar gerdet.'

'Ie,' heb ynteu, 'nyt oes neb yma a wypo dim y wrth hynny, onys gwyr Branwen. Gouynnwch idi.'

Kennadeu a aeth at Uranwen. 'Arglwydes,' heb wy, 'beth dybygy di yw hynny?'

'Kyn ny bwyf arglwydes,' heb hi, 'mi a wnn beth yw hynny. Gwyr Ynys



y Kedyrn yn dyuot drwod o glybot uym poen a'm amharch.'

'Beth yw y coet a welat ar y mor?' heb wy.

'Gwernenni llongeu, a hwylbrenni,' heb hi.

'Och!' heb wy, 'beth oed y mynyd a welit gan ystlys y llongeu?'

'Bendigeiduran uym brawt,' heb hi, 'oed hwnnw, yn dyuot y ueis. Nyt
oed long y kyngthanei ef yndi.'

'Beth oed yr eskeir aruchel a'r llynn o bop parth y'r eskeir?'

'Ef,' heb hi, 'yn edrych ar yr ynys honn, llidyawc yw. Y deu lygat ef o
pop parth y drwyn yw y dwy lynn o bop parth y'r eskeir.'

Ac yna dygyuor holl wyr ymlad Iwerdon a wnaethpwynt y gyt, a'r holl
uorbennyd yn gyflym, a chynghor a gymerwynt.

'Arglwyd,' heb y wyrda wrth Uatholwch, 'nyt oes gynghor namyn
kilyaw drwy Linon (auon oed yn Iwerdon), a gadu Llinon y rot ac ef, a
thorri y bont yssyd ar yr auon. A mein sugyn yssyd ygwaelawt yr auon, ny
eill na llong na llestyr arnei.' Wynt a gylyssant drwy yr auon, ac a
torryssant y bont.

Bendigeiduran a doeth y'r tir, a llynghes y gyt ac ef, parth a glann yr auon.

'Arglwyd,' heb y wyrda, 'ti a wdost kynneddyf yr auon, ny eill neb uynet
drwydi, nyt oes bont arnei hitheu. Mae dy gynghor am bont?' heb wy.

'Nit oes,' heb ynteu, 'namyn a uo penn bit pont. Mi a uydaf pont,' heb
ef. Ac yna gyntaf y dywetpwynt y geir hwnnw, ac y diharebir etwa ohonaw.

*Dymunai Branwen gymod rhwng ei brawd a'i gŵr, a phenderfynwyd
anrhydeddu Bendigeidfran drwy godi tŷ iddo gan nad oedd Bendigeidfran,
oherwydd ei faint, erioed wedi medru cael tŷ a oedd yn ddigon mawr
i'w gynnwys. Adeiladwyd y tŷ iddo, ond ar bob un o'i gan colofn
rhoddodd y Gwyddelod filwr i guddio mewn sach o groen, yn barod i
ddistrywio'r Cymry pan ddeuent i'r wledd a oedd i'w chynnal yno.
Efnisien oedd yr un a ddarganfu'r twyll, a gwasgodd bennau'r milwyr
nes bod ei fysedd yn suddo i mewn i'w hymennydd drwy'r asgwrn.
Cymodwyd y ddwy wlad drwy ddadurddo Matholwch ac estyn y
frenhiniaeth i'w fab ifanc, Gwern. Gan fod Gwern yn symbol o'r uniad
rhwng Matholwch a Branwen yr oedd Efnisien wedi ei wrthwynebu
mor daer, taflodd Efnisien Gwern i'r tân a dechreuodd pawb drwy'r tŷ
ailafael yn yr ymladd.*

Ac yna y dechrewis y Gwydyl kynneu tan dan y peir dadeni. Ac yna y byrywyt y kalaned yn y peir, yny uei yn llawn, ac y kyudodyn tranoeth y bore yn wyr ymlad kystal a chynt, eithyr na ellynt dywedut. Ac yna pan welas Efnissyen y kalaned heb enni yn un lle o wyr Ynys y Kedyrn, y dywot
 175 yn y uedwl, 'Oy a Duw,' heb ef, 'guae ui uy mot yn achaws y'r wydwic honn o wyr Ynys y Kedyrn; a meuy l ymi,' heb ef, 'ony cheissaf i waret rac hynn.'

Ac ymedyryaw ymlith calaned y Gwydyl, a dyuot deu Wydel uonllwm idaw a'y uwrw yn y peir yn rith Gwydel. Emystynnu idaw ynteu yn y peir, yny dyrr y peir yn pedwar dryll, ac yny dyrr y galon ynteu. Ac o hynny y
 180 bu y meint goruot a uu y wyr Ynys y Kedyrn. Ny bu oruot o hynny eithyr diang seithwyr, a brathu Bendigeiduran yn y troet a guenwynwaew.

Sef seithwyr a dienghis, Pryderi, Manawydan, Gliuieu eil Taran, Talyessin, ac Ynawc, Grudyeu uab Muryel, Heilyn uab Gwyn Hen.

Ac yna y peris Bendigeiduran llad y benn. 'A chymerwch chwi y penn,'
 185 heb ef, 'a dygwch hyt y Gwynuryn yn Llundain, a chledwch a'y wyneb ar Freinc ef. A chwi a uydwch ar y ford yn hir; yn Hardlech y bydwch seith mlyned ar ginyaw, ac Adar Riannon yn canu ywch. A'r penn a uyd kystal gennwch y gedymdeithas ac y bu oreu gennwch, ban uu arnaf i eiryoet. Ac y Guales ym Penuro y bydwch pedwarugeint mlyned. Ac yny agoroch y
 190 drws parth ac Aber Henuelen, y tu ar Gernyw, y gellwch uot yno a'r penn yn dilwgyr genhwch. Ac o'r pan agoroch y drws hwnnw, ny ellwch uot yno. Kyrchwch Lundein y gladu y penn. A chyrchwch chwi racoch drwod.'

Ac yna y llas y benn ef, ac y kychwynassant a'r penn gantu drwod, y seithwyr hynn, a Branwen yn wythuet. Ac y Aber Alau yn Talebolyon y
 195 doethant y'r tir. Ac yna eisted a wnaethant, a gorfowys. Edrych oheni hitheu ar Iwerdon, ac ar Ynys y Kedyrn, a welei ohonunt.

'Oy a uab Duw,' heb hi, 'guae ui o'm ganedigaeth. Da a dwy ynys a diffeithwyd o'm achaws i.'

A doddi ucheneit uawr, a thorri y chalon ar hynny. A gwneuthur bed petruall idi, a'e chladu yno
 205 yglan Alaw.



C E F N D I R

‘**B**ranwen ferch Llŷr’ yw’r ail chwedl yn y casgliad o bedair a elwir yn Bedair Cainc y Mabinogi. Dyma’r teitl a roddwyd ar bedair stori arbennig iawn sy’n cysylltu’n agos â’i gilydd mewn mannau, ond sydd eto yn bedair stori annibynnol ar ei gilydd ac sy’n sefyll ar eu traed eu hunain yn ddigon cadarn. Chwedlau sy’n ymwneud â’r duwiau Celtaidd yw’r rhain. Fel y dywedodd Dr Brynley F. Roberts (gw. y Rhagymadrodd i ddiweddariad Dafydd a Rhiannon Ifans, *Y Mabinogion* (Llandysul, 1995), t. xv):

Olion mytholeg y Brythoniaid sydd yma, eu cred am y Byd Arall—
Annwfn—ac am ymwneud y duwiau â dynion; cymeriadau o bantheon
crefydd Celtaidd Prydain yw arwyr y Pedair Cainc.

Ymwneud y duwiau â dynion sydd yma felly, ac yn dilyn o hynny fe geir ymwneud dynion â’i gilydd. Yn y gainc gyntaf adroddir hanes carwriaeth a phriodas Pwyll a Rhiannon ynghyd â hanes geni eu mab, Pryderi; caiff Pryderi ei golli drwy gyfrwng hud a lledrith ac yna ei adfer i ofal ei rieni. Yn yr ail gainc adroddir hanes teulu Branwen ferch Llŷr a’r helynt a ddaeth arnynt yn dilyn ei phriodas â Matholwch, brenin Iwerddon. Hanes Pryderi wedi iddo ddod i oed yw testun y drydedd gainc, a hanes ei fam, Rhiannon, yn priodi Manawydan; wedi i hud ddisgyn ar Ddyfed â Rhiannon, Manawydan, Cigfa a Pryderi i weithio yn Lloegr, cyn dychwelyd i Ddyfed i wynebu rhagor o gyffro. Yn y bedwaredd gainc adroddir hanes Pryderi yn rhoi’r moch a gafodd gan frenin Annwfn i’r twyllwr Gwydion, a chaiff Pryderi ei ladd yn y brwydro chwerw sy’n digwydd yn ganlyniad i hynny. Yn y gainc olaf hefyd yr adroddir hanes enwog Blodeuwedd. Digwydd rhyw gyfeiriad at Pryderi ym mhob un o Bedair Cainc y Mabinogi, ond nid yw ef yn hanfodol i bob un ohonynt, lleiaf oll yr ail gainc a’r bedwaredd.

Efallai mai trafod pwnc moesol yw cryfder pennaf awdur Pedair Cainc y Mabinogi. Meddai Dr Brynley F. Roberts (gw. *ib.*, tt. xx–xxi):

... wedi gosod allan fan cychwyn yr hanes yn y gainc gyntaf, bron na theimlir fod yr awdur yn pennu pwnc gwahanol yn destun i bob cainc, natur sarhad yn yr ail, natur cyfeillgarwch yn y drydedd, a natur cywilydd

yn yr olaf, fel y bo'r darllenydd, erbyn y diwedd, wedi dod wyneb yn wyneb ag agwedd gyson a moesol yr awdur tuag at fywyd.

Codwyd y testun o llawysgrif Peniarth 4, sef Llyfr Gwyn Rhydderch. Dyma'r testun llawn cynharaf o Bedair Cainc y Mabinogi, ac fe'i lluniwyd tua'r flwyddyn 1300. Ar golofn 38 y llawysgrif, tua thraean y ffordd i lawr y golofn, y mae'r briflythyren B am *Bendigeiduran*. Dyma lle y mae'r ail gainc o'r pedair yn dechrau, sef y chwedl a elwir gennym ni yn chwedl 'Branwen ferch Llŷr'. Ond sylwer nad oes teitl i'r chwedl hon yn y llawysgrif wreiddiol. Ymhellach, nid oes teitl i Bedair Cainc y Mabinogi fel cyfanwaith ynddi ychwaith, heb sôn am gael teitl unigol i bob un o'r pedair chwedl. Erbyn hyn yr ydym yn gyfarwydd â meddwl am bob un o'r Pedair Cainc wrth enw arbennig, enw pedwar person—Pwyll Pendefig Dyfed, Branwen ferch Llŷr, Manawydan fab Llŷr a Math fab Mathonwy—ond fel y gwelir o'r llun llawysgrif gyferbyn, rhywbeth sydd wedi'i ychwanegu yn llawer diweddarach yw'r teitlau hynny.

Y mae'r gainc gyntaf yn dechrau gyda'r fformiwla *Pwyll, Pendeuic Dyuet, a oed yn arglwyd ar seith cantref Dyuet* ac yn ddigon naturiol fe alwyd y gainc ar ôl Pwyll Pendefig Dyfed. Enw Bendigeidfran sy'n digwydd gyntaf yn yr ail gainc, ac wrth ei enw ef y cafodd y gainc hon ei galw hyd ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gyfieithodd y Fonesig Charlotte Guest y gainc i Saesneg a'i chyhoeddi dan y teitl 'Branwen ferch Llŷr'. Y teitl hwnnw sydd wedi aros, ond tybed a fu hwnnw'n ddewis doeth?

Stori Bendigeidfran, nid stori Branwen, a ddisgwylid yn ôl arferion y diwylliant canoloesol. Amgylchiadau bywyd Bendigeidfran, fel penteulu ac fel brenin, sydd wrth wraidd y gainc hon, ac ar y cyfan swyddogaeth oddefol sydd i Branwen ynddi. Pe stori Branwen fyddai hon gellid dadlau y dylai'r gainc ddod i ben ar ei marwolaeth o dorcalon, ond o ddod â'r gainc i ben yn y fan honno byddai tua pymtheg y cant o'r gainc fel y saif heddiw yn dal heb ei hadrodd.

Peniarth 4, sef Llyfr Gwyn Rhydderch:
darn agoriadol 'Branwen ferch Llŷr'

10
þæt breac hommo a bnaethom þadab ef.
þrofi adub heb þpþyll traparhab

þpþedunantref heredigyn. d. þ.
gelbir þre hynny. senhantref

10
þæt breac hommo a bnaethom þadab ef.
þrofi adub heb þpþyll traparhab
yfi m athkynhalþaf arh ath
kynnoeth tra alloþf lypunhal þ
meu uylm. Os ynteu auþd u
bnaeth þb idab dygþunhal nogþt
þim. Ac os þynghor gemþt alþu
nþ acham hynm obþda. canþs
megeist u ef lýt þ ab hon. m ac
rodbn ar uaeth at þendaran dy
uet oþþim allan. Adþdbch gedþ
mderthou chorthen athatmaethen
idab. kþnghor uabn heb þþabb þb
hbmub. ac þma þrotet þmab þþen
daran dþuet ac þd þmþrþþs gþþ
rda þolat þþþt ac ef. ac þlþþchþ
mþþs teirnou conþþiant aþ ge
dþmderthou þþþngþab aþ blat ac
ae gþnoeth gan garyat allþbe
mþd. ac uþt aeth heb gþunþt þdab
þtþþþþen teat af ar meryþh goren
arþbu hoþaf. ac nþ mþmþþs ef
dum. þma þþrþþþþant oþþteu ar
eu kþnoeth ac þma gþþt þþþer
uab þþþll þeu amþon þu anþele
dus ual þd oed dþþþet þnþ oed de
ledibþaf gþaþf athet af achþþþaf
oþþb camp da oz aod þnþ dþmas
ueth þ þreulþþþant blþþþu alþo
þdþmed þnþ deth teruþn ar hoe
dþþ þþþll þeu amþon ac þbu na
ro. ac þþbleþþchþþs þnteu þþþe
n senhantref dþuet þallþþdan
uus garedic gan þþnoeth acham
þabb þnþ þþþch. ac þu ol hþnþ þ
kþnþdþþs trþþantref þþþt eþm.

þpþedunantref heredigyn. d. þ.
gelbir þre hynny. senhantref
þþþch. ac ar þdþnþþd hommo þ
bu ef þþþer uab þþþll þeu am
non þnþ deth þnþ uþþt breith
þef gþreit aþþmabþd kþnþ ne
rch gþnn goþþþb uab gloþþb
lyþan. uab caþnar oledic dþþle
dogþon þþ þnþþs hon. ac þueth
þteruþma þþþng hon þma o
mab þnnogþon.

Budigeiduran uab lþþr ac
urenthu corouab ac þþ þnþ
hon. ac ar dþþchabþ oþþon lū
dem. aþþmhabugueith þd oed
þn hardlerþ þu ar dþþþ þallþþ
idab. ac þn eithed þd oedþnt ar
garret hardlerþ uþ þeu fþeith
amaþuþþþan uab lþþr þnþþ
þþþt ac ef. adu uroder m nū
ac ef mþþeu ac eþþþþen aþ
rda þam hþnþþ ual þþþe
þnþþþch breithm. þeu uroder
m uanþ ac ef mēþen oedþnt
eurolloþd oe nam þnteu þn
ardun uerch ueth uab mþno
ar þeall oþþeillou hþnþ
da oed. ef abareþ tanþeith
rþþ þþeu lū þau uþþnt lū
caf. ef oed honub mþþeu. þ
abareþ þnþlad þrþng þd
der þau uer uþþaf þd þnþer
ac ual þd oedþnt m eithed
lþþ oþnt abeþnt oþþ lū
der þu dþuot oþþen lū
ac þn kþrþm þnþ þnþ

37

38

þdþm mēþch þeþ þeþ
þþþþþþ


37

þdþm mēþch þeþ þeþ
þþþþþþ

T H E M Â U

Yng ngwead y gainc hon y mae môr o straeon, ond nid yw'r storïwr yn eu hadrodd hwy i gyd. Prin gyffwrdd â rhai ohonynt a wneir. Oherwydd cyfoeth storïol y chwedl fe ymdrinnir ynddi â sawl thema, ac fe gyffyrddir â llawer. Fe esbonnir, ymysg pethau eraill, sut y mae peidio â chymodi yn gallu dwyn dinistr ar ddwy wlad gyfan, ac mai'r diniwed, sef Branwen, sy'n dioddef. Sail y cwbl yw balchder dyn a'i gred ddiysgog yn ei hawliau ei hunan a'i bwysigrwydd affwysol.

Unig ferch teulu Llŷr yw Branwen: y mae ganddi frawd, Bendigeidfran, sy'n frenin Ynys Prydain, a brawd arall o'r enw Manawydan. Y mae ganddi hefyd ddau hanner brawd, sef Nisien ac Efnisien ond nid meibion Llŷr yw'r rhain; meibion mam Branwen, Penarddun, a'u tad Euroswydd, ydynt hwy.



O'r hanner brodyr, y mae un yn foesol dda a'r llall wedi cael enw drwg. Nisien oedd yr heddychwyr ac Efnisien oedd y pry yn y pren, yr un a'i fryd ar greu helynt. Efnisien yw'r ysbardun i holl ddigwyddiadau chwedl Branwen. Ef sy'n ysgogi'r digwyddiadau cyntaf trwy fynnu dial ar frenin Iwerddon am briodi Branwen heb ei ganiatâd ef. Dim ond hanner brawd cecrus oedd Efnisien, ac eisoes yr oedd Matholwch wedi cael caniatâd Bendigeidfran (brenin y deyrnas, a'r brawd a oedd â'r un tad a mam â Branwen) i'w phriodi.

Sarhad

Yr elfen nesaf sy'n ymddangos yn y gainc yw'r elfen o sarhad, sef gwneud yn fach o rywun yn fwriadol, achosi gwarth, neu gywilyddio rhywun. Y mae Efnisien yn sarhau Matholwch am briodi Branwen heb ei ganiatâd ef drwy anffurfio ei geffylau. Fe ddewisodd ei ddull o sarhau yn ofalus. Yn y cyfnod hwn yr oedd yn arferol i frenin dderbyn meirch yn rhodd am eu bod yn symbol o gryfder. Byddai march rhyfel yn pwyso tunelli, yn egniïol ac yn nerthol. Byddai rheidrwydd arnynt i fod yn fawr a chryf er mwyn cario marchog canoloesol a'i arfwisg o haearn i faes y gad.



Y dduwies Epona



Ceffyl gwyn Uffington

Yr oedd march hefyd yn symbol o ffrwythlonedd, ac o allu'r byd i atgennedlu. I'r Celtiaid yr oedd hyn yn bwysig dros ben a hyd heddiw fe welir ar sawl bryn siâp ceffyl wedi'i gerfio i'r ddaear. Un o'r rhai enwocaf yw'r un yn Uffington yn Berkshire lle y mae siâp ceffyl gwyn yn y sialc, tua 370 troedfedd o hyd. Fe'i dyddiwyd i'r ganrif gyntaf cyn Crist. Yn y gwledydd Celtaidd y dduwies Epona sy'n cynrychioli'r elfen bwysig hon, ac y mae llun enwog ohoni yn eistedd ar gyfrwy untu ar ei cheffyl, yn gwisgo clogyn hir ac yn cario allwedd i'r stablau.

I'r sawl a oedd yn eistedd yn y llys yn gwrando ar stori Branwen, fe fyddai'n sioc o'r mwyaf ganddynt glywed bod Efnisien wedi difetha meirch; ac nid unrhyw hen feirch ond meirch y brenin, a brenin gwlad arall at hynny, brenin a oedd ar ymweliad â'r wlad hon. Dyna fyddai gwarth o'r iawn ryw. Ac fe sylweddola Matholwch hefyd ddyfnder y gwarth: 'Cwbyl waradwyd a geueis' ('Cefais waradwydd cyflawn').

Talu iawn

Y symudiad nesaf yw talu iawn i Matholwch. Dyma syniad moesol pwysig. Os digwydd sarhad, lle pennaeth y wlad yw talu iawn, ac o wneud hynny adfer y sefyllfa wreiddiol. Y cam cyntaf yw talu rhywfaint ar y bil enfawr hwn. Telir gwerth y meirch, pris y farchnad, drwy roi meirch o Gymru yn anrheg i Matholwch. Ond nid yw talu eu gwerth, punt am bunt, yn ddigon. Meddai Bendigeidfran: 'ef a geif march iach am pob un o'r a lygrwyd; ac y gyt

a hynny, ef a geif yn wyneperth idaw, llathen aryant a uo kyuref [a'e uys bychan] a chyhyt ac ef ei hun, a chlawr eur kyflet a'y wyneb' ('caiff farch iach am bob un a ddifethwyd; ac ynghyd â hynny, fe gaiff yn bris ei anrhydedd wialen arian a fyddo mor drwchus â'i fys bychan a chyhyd ag ef ei hun, a phlât aur cyfled â'i wyneb').

Ymdrinnir â dwy elfen yma, sef tâl am y meirch, a thâl ychwanegol am *bris ei anrhydedd*, sef y chwithdod a achoswyd i Matholwch oherwydd yr ymdeimlad o warth. Ond y mae trydedd elfen heb ei chyffwrdd. Creadur goruwchnaturiol yw Bendigeidfran. Awgryma ei faint ei fod yn oruwchddynol, ac y mae ei nerth hefyd yn awgrymu rhywbeth mwy na dyn. Awgrym arall o hynny yw'r meddiannau rhyfeddol sydd ganddo—un yn arbennig, sef Pair Dadeni. Penderfyna roi hwnnw i Matholwch fel rhan o'r tâl sarhad: 'Mi a rodaf yt peir; a chynnedyf y peir yw, y gwr a lader hediw yt, y uwrw yn y peir, ac erbyn auory y uot yn gystal ac y bu oreu, eithyr na byd llyueryd ganthaw' ('Fe roddaf iti bair; a hynodrwydd y pair yw, y deiliaid iti a ladder heddiw, ei fwrw yn y pair, ac erbyn yfory fe fydd cystal ag y bu ar ei orau, ond na bydd ganddo leferydd'). Gall y pair atgenhedlu gwŷr meirw, a gall wneud hynny dros nos gydag un anabled, sef na fydd y corff newydd yn medru llefaru. Dyna felly dalu'r pwyth yn ôl mewn gwirionedd. Yn y Pedair Cainc y mae'r talu iawn neu'r gosb bob amser yn ffitio'r ddyled neu'r drosedd yn berffaith. Os lladdwyd meirch sy'n symbol o genhedliad, y mae'n rhaid talu'r ddyled mewn modd priodol, ac y mae'r taliad hwn yn taro deuddeg. Y mae'r Pair Dadeni yn anrheg goruwchnaturiol a fydd yn bywhau a ffrwythloni deiliaid y brenin. Fe fydd ail genhedlaeth, hyd yn oed o gyrff a oedd unwaith yn feirw.

Ac yn wir daw'r ddwy frenhiniaeth, Ynys y Cedyrn ac Iwerddon, i weld lygad yn llygad unwaith eto. Ceir heddwch rhwng y ddwy wlad, a thyf cyfeillgarwch rhyngddynt, yn dilyn y briodas rhwng y ddau deulu brenhinol.

Fe ddylai'r episod ddirwyn i ben yma: fe fu cweryl, ac fe fu cymod. Ond cymod byrhoedlog oedd hwn; ni wnaed taliad unwaith ac am byth. Y mae'r hen gwestiwn o sarhad yn codi'i ben unwaith eto. A gafodd Matholwch ddigon o feirch, o anrhegion, ac o ymddiheurad am y gwarth o gael difetha ei feirch yng Nghymru? Ateb Iwerddon i'r cwestiwn hwnnw yw 'Naddo' cadarn iawn. Beth rhagor y gellir ei wneud i dawelu'r Gwyddelod a thawelu'r dyfroedd rhwng y ddwy wlad? Penderfynir dial ar Branwen.

Dial ar Branwen

Gorfodir Branwen, gwraig y brenin, i weithio yng nghegin y plas ac y mae hynny ynddo'i hunan yn sen ar ei safle yn y llys. Ar ben hynny daw'r pen cogydd ati a'i tharo ar ei hwyneb unwaith y dydd, yn union deg ar ôl iddo fod yn torri cig, sef pan yw mewn hwyliau drwg ac wedi bod yn ymarfer ar y cig. Y mae cysgod yma o'r malurio a'r torri cnawd a fu yn stablau Aberffraw. Cofir am rywun yn rhacsio anifail: torri gweflau'r meirch a'u hanffurfio yn gyffredinol yn achos Efnisien; gwelir rhywun yn torri cig yn y gegin yn achos y cogydd; yna yn 'hwyl' y lladd a'r torri cnawd fe ddielir ar Branwen. Sylwer mai'r diniwed sy'n dioddef—Branwen, yr un na leisiodd farn y naill ffordd na'r llall yn y stori drist hon o gamymddwyn rhwng pobloedd a'i gilydd.

Cyhoedda Bendigeidfran ryfel ar Iwerddon oherwydd y sen hwn ar ei chwaer, ac er bod Matholwch yn cynnig cymodi ni ddaw hynny i ben a cheir mwy o golli gwaed. Yn ystod y lladdfa olaf caiff Bendigeidfran ei saethu yn ei droed gyda saeth wenwynig. Am mai un o'r ffigurau hanner duw a hanner dyn yw Bendigeidfran daw marwolaeth i'w ran, a chleddir ei ben yn wynebu'r Cyfandir er mwyn bod yn amddiffynfa yn erbyn ymosodiad oddi yno.

Trasiedi yw stori Branwen: stori am fwriad da, sef sicrhau cyswllt tynnach rhwng dwy deyrnas, ac uno dau deulu, ond bwriad a aeth i'r gwellt yn y diwedd oherwydd balchder. Er mai cyfannu oedd y nod, diwedd y stori yw'r gwrthwyneb yn llwyr, sef bod rhyfel ffyrnig rhwng y ddwy wlad, gyda'r canlyniad fod dwy ynys dda yn cael eu difetha, ynghyd â'u deiliaid. Parodd balchder anallu yn y ddwy blaid i gymodi, ac i weld safbwynt gwahanol i'w safbwynt hwy eu hunain. Esgorodd hynny ar ddialedd, a 'gwirionedd' stori Branwen yw fod agwedd meddwl dialgar yn y pen draw yn peri difodiant.

A R D D U L L

Ardull storiol sydd i'r chwedl hon fel i bob un o'r Pedair Cainc a dewiswyd cyflwyno'r stori, ar y cyfan, drwy gyfres o frawddegau sy'n defnyddio amser gorffennol y ferf, er enghraifft '[g]wnaethant ... [g]welsant ... kyscwys ... [g]orugant'. Dyma'r amser adroddiadol. Adroddai'r cyfarwydd

am res o ddigwyddiadau, y naill ar ôl y llall, ac os oedd rhywfaint o ladd amser rhwng dau ddigwyddiad teimlai fod yn rhaid iddo lanw'r amser hwnnw drwy esbonio beth a ddigwyddodd. Dyna sydd gennym ar ddechrau'r darn hwn o chwedl 'Branwen ferch Llŷr', sef y cyfarwydd yn rhoi gwybod i'r gynulleidfa fod gwledd wedi'i chynnal y noson honno, fod blinder wedi dod drostynt, a'u bod wedi mynd i'r gwely. Nid oes arwyddocâd o gwbl i'r wledd na'r blinder, ac nid oes angen sôn amdanynt. Ond y mae arwyddocâd i'r ffaith fod Matholwch a Branwen wedi rhannu gwely gan fod hynny yn ennyn dicter Efnisien. Fodd bynnag, ni allai'r meddwl canoloesol neidio dros yr oriau pan ddigwyddodd y wledd heb wybod beth yn union a ddigwyddodd yn ystod yr oriau hynny. Gallwn ni, gyda'n profiad o wylïo ffilmiau sy'n neidio yma ac acw o un olygfa yn y gorffennol i olygfa arall yn y dyfodol ac yn ôl eto flynyddoedd i olygfa blentyndod, ddygymod â'r gwahanol amserau hyn, ond nid dyna brofiad cynulleidfâ'r cyfarwydd. Dyna pam fod yn rhaid iddynt wrth y fformiwla amser hwn:

A'r gyuedach a dechreussant. Dilit y gyuedach a wnaethant ac ymdidan.
A phan welsant uot yn well udunt kymryt hun no dilyt kyuedach, y gyscu
yd aethant. A'r nos honno y kyscwys Matholwch gan Uranwen.

(A dechreuasant y gyfeddach. Ymroesant i'r gyfeddach ac ymddiddan.
A phan welsant ei bod yn well iddynt gymryd cwsg na dilyn cyfeddach,
fe aethant i gysgu. A'r noson honno fe gysgodd Matholwch gyda Branwen.)

Dim ond y frawddeg olaf sy'n angenrheidiol i'r stori, ond yr oedd natur profiad y gymdeithas ganoloesol yn mynnu nad oedd y storiwr yn neidio dros ddigwyddiadau'r gyda'r nos honno yn hanes y llys ac y mae rheidrwydd arno i ddefnyddio'r brawddegau llanw hyn fel rhan o'i arddull.

O'r saith brawddeg sy'n y paragraff cyntaf, y mae chwech ohonynt yn dechrau â'r cysylltair *a*. Arwydd o'r traddodiad llafar yw hyn ac arwydd hefyd o hynafiaeth y testun. Wrth adrodd stori, cysyllteiriau a ddefnyddir amlaf wrth gydio un darn wrth y llall, 'ac wedyn', neu 'ac yn sydyn', neu rywbeth cyffelyb, fel sydd yma. Fe allai hynny fynd yn fwrn ar ddarllenydd oni bai fod y cyfarwydd yn amrywio patrwm ei frawddegau gan ei fod yn pwysu'n drwm ar y tagiau amser 'A'r nos honno', 'A thrannoeth', 'Ac ar hynny dydgueith'. Ond amrywiaeth arddull brawddegol sydd yn y Pedair Cainc, nid unffurfiaeth.

Mewn Cymraeg Diweddar y ffurf fwyaf arferol ar frawddeg yw'r frawddeg normal, a threfn y frawddeg honno yw berf + goddrych, fel hyn:

Gwelodd (berf) + y dyn (goddrych) lawer o ryfeddodau.

Ceid yr un patrwm brawddegol mewn Cymraeg Canol:

Dywawt (berf) + y kawr (goddrych);

Cares (berf) + y vorwyn (goddrych).

Os oedd angen pwysleisio unrhyw ran o'r frawddeg ac eithrio'r ferf, rhoddid y darn a oedd i gael ei bwysleisio ar ddechrau'r frawddeg, a'r cyplad o'i flaen:

ys (cyplad) + elfen i'w phwysleisio + cymal perthynol

ys + *mi* + a'e goruc

fi a'i gwnaeth (yn hytrach na neb arall).

Gelwir brawddeg o'r math hwn yn frawddeg gymysg.

Ond mewn Cymraeg Canol y drefn fwyaf cyffredin ar frawddeg yw'r frawddeg annormal. Os gosodir elfen o'r frawddeg o flaen y ferf heb ddymuno ei phwysleisio mewn unrhyw ffordd, a heb y cyplad, fe'i gelwir yn frawddeg annormal a dyma'r norm mewn Cymraeg Canol. Enghraifft o hynny yw'r frawddeg agoriadol:

A'r gyuedach a dechreussant.

Erbyn yr ail frawddeg y mae'r cyfarwydd wedi newid ei batrwm brawddegau ac yn cael blas ar amrywio ymhellach.

Dilit y gyuedach
a wnaethant

berfenw + gwrthrych y berfenw + *a* +
berf gynorthwyol *wnaethant*

Yr un patrwm sydd i'r bumed frawddeg, gyda thag amser:

A thrannoeth, kyuodi
a orugant

tag amser + berfenw + *a* +
berf gynorthwyol

Y mae cystrawen brawddeg olaf y paragraff yn wahanol eto.

Ac ar hynny dydgueith, nachaf
Efnisien ... yn dywanu

tag amser + ebychiad + goddrych +
berfenw (yn dilyn bellter ar ei ôl)

Felly er bod chwech o'r saith brawddeg yn dechrau â chysylltair, nid tlodi arddull a gaiff ei arddangos yn y paragraff cyntaf hwn, ond cyfoeth mynegiant

amrywiol a diddorol. I dorri ar undonedd gair cyntaf y brawddegau, y mae'n amrywio trefn y geiriau o fewn pob brawddeg.

Yna, y mae'r cyfarwydd yn troi at ddeialog i amrywio ei arddull ymhellach. Ym mhob achos o nodi sgwrs, llwydda i daro'r nodyn cywir bob tro, gan roi i bob cymeriad ei ddull ei hun o siarad. Symudiad naturiol, rhugl iawn sydd i bob darn ymgom, ac y mae'n taro deuddeg o ran addasrwydd ac amrywiaeth. Ceir nodyn o hiwmor herfeiddiol yn ateb Branwen i'r Gwyddelod sy'n gwarchod y moch, 'Kyn ny bwyf arglwydes'; ateb pwylllog y gwladweinydd profiadol a chraff a geir gan Bendigeidfran wrth iddo gynnig talu iawn i Matholwch; siarad rhai wedi eu brawychu a'u cyffroi ar yr un pryd yw cyfraniad gwylwyr y moch i'w brenin. Arwydd o grefft ddiamheuol y cyfarwydd hwn yw rhythm effeithiol ei ddeialog ac arddull ei frawddegau yn gyffredinol.

Nodwedd ar arddull y cyfarwydd oedd ei ddefnydd o ansoddeiriau. Oherwydd mai testunau dramatig yw'r chwedlau hyn, ac oherwydd eu bod yn cael eu perfformio a'u llefaru, a bod disgwyl i'r gynulleidfa weld y stori yn y dychymyg wrth i'r storiwr ei chyflwyno, nid yw'n syndod mai ansoddeiriau gweledol yw'r ansoddeiriau a ddewisir. Cyfleu ymddangosiad pethau oedd uchaf ar feddwl y cyfarwydd wrth ddiddori'r llys, nid ymhel â rhesymeg neu athroniaeth (er bod hynny i'w gael hwnt ac yma). Nid yw'n syndod fod pentyrru ansoddeiriau, neu eu defnyddio fesul dau neu fesul tri, yn plesio'r cyfarwydd yn well, ar dro, na'u defnyddio fesul un. Synna Matholwch fod gwŷr Ynys y Cedryn wedi rhoi 'morwyn gystal, kyuurd, gyn anwylet gan y chenedyl' â Branwen iddo ef, ac wedyn wedi ei waradwyddo. Defnyddir yr un dechneg arddullol wrth amlhau enwau er mwyn creu darlun mwy graffig. Sonnir am 'y pebylleu a'r palleu', sef yr un peth, ac yn nes ymlaen, 'par weithon wahard y llongeu, a'r yscraffeu, a'r corygeu', tri chyfeiriad at yr un peth.

Techneg lenyddol a ddefnyddid yn gyson oedd y stori onomastig, neu'r chwedl enwol. Nodir yn y darn hwn ddwy stori o'r fath (er bod rhagor na hyn yn y chwedl gyflawn), sef yr esboniad ar enw cwmwd Talybolion, neu Tâl Ebolion, a'r esboniad ar darddiad y ddihareb 'A fo ben, bid bont'. Fe hoffai'r gynulleidfa wyriad fel hyn oddi wrth brif rediad y stori ac ni ellir llai na theimlo bod statws i straeon o'r fath—mwyaf oll ohonynt a geid, gorau oll. Y mae arddull arbennig ynglŷn ag adrodd chwedl enwol, ac elfen fformiwlaig ynglŷn â'r diweddsglo iddynt, sef y datganiad mai chwedl enwol ydyw:

Ac wrth hynny y dodet ar y kymwt hwnnw o hynny allan, Tal Ebolyon.

Ac yna gyntaf y dywetpwynt y geir hwnnw, ac y diharebir etwa ohonaw.

Diddorol yw nodi yn y chwedl hon ryw newid bychan yn y dull arferol o gyfarch rhwng dau berson a'i gilydd. Arddull arferol y cyfarchiad yw fod y person isaf ei statws cymdeithasol yn siarad yn gyntaf gan gyfarch gwell, a'r person uwch ei statws yn ateb drwy ddymuno bendith Duw arno. Dyna a ddigwydd pan ddaw meichiaid Matholwch ato (sef y sawl a oedd yn gofalu am ei foch), gyda'r neges iddynt weld rhywbeth rhyfeddol allan ar y môr:

'Arglwydd,' heb vy, 'henpych guell.'

'Duw a rodo da ywch,' heb ef, 'a chwedlau genhwch?'

('Arglwydd,' meddent hwy, 'henffych well.'

'Duw fyddo'n dda wrthych,' meddai ef. 'A oes gennych newyddion?')

Ond pan ddeallir nad oes syniad yn y byd gan Matholwch beth yw ystyr y rhyfeddod, fe droir at Branwen i geisio esboniad. Cydnabyddant ei statws hi gyda'r teitl 'Arglwyddes', ond ni chyfarchant hi yn y ffordd y dylai rhai isradd gyfarch brenhines y deyrnas:

'Arglwydes,' heb wy, 'beth dybygy di yw hynny?'

'Kyn ny bwyf arglwydes,' heb hi, 'mi a wnn beth yw hynny.'

('Arglwyddes,' meddent hwy, 'beth a dybi di yw hynny?'

'Er nad wyf yn arglwyddes,' meddai hi, 'fe wn i beth yw hynny.')

Er nad yw swyddogion y llys yn ei thrin fel y dylai arglwyddes gael ei thrin, y mae'n ddigon balch o gael dweud wrthynt ystyr y rhyfeddod, ond nid yw'n bosibl iddi ateb y diffyg cyfarchiad. Torrir yma ar y fformiwla arddullol sy'n ymwneud â chyfarch gwell.

Wrth ddisgrifio ceidwaid y moch yn syllu allan i'r môr ac yn gweld Bendigeidfran a'i luoedd yn dod tuag at Iwerddon, y mae'r storiwr yn defnyddio motîff penodol, sef y motîff cyfarwydd o ddisgrifio gelyn cyn iddo gyrraedd. Ond yn yr achos hwn y mae dirgelwch ynglŷn â'r olygfa allan ar y môr, ac ni ellir datrys ei rhyfeddod ond drwy gydweithrediad chwaer y gelyn. Dim ond gan Branwen y mae'r allwedd i ddeall y sefyllfa yn llawn ac felly y mae yma gymhlethdod i'r motîff 'disgrifio gelyn'.

Yn y disgrifiad o'r gelyn hwn, ei anferthedd yw ei brif nodwedd. Yn y traddodiad Cymraeg y mae'r arwyr bob amser wedi arfer bod yn fawr o faint ac atyniadol eu cymeriad, ac felly fe ddeallir mewn ffordd anuniongyrchol, ar ffurf darlun yn hytrach na geiriau, mai Bendigeidfran a'i wŷr yw'r arwyr, nid gwŷr Iwerddon. Yr hen genhedlaeth a ganmolir fel arfer, ond yn yr achos hwn y mae Bendigeidfran yn fawr *yn* ei genhedlaeth.

Defnyddir techneg lleihad er mwyn pwysleisio pwynt arbennig. Disgrifir rhyw elfen yn y stori drwy ddefnyddio geiriau y mae eu hystyr lythrennol yn llai na'r hyn a ddisgrifir. Drwy ddefnyddio'r ymadrodd *ennill ceiniog neu ddwy* i olygu *ennill cyflog* defnyddir geiriau sydd â'u hystyr lythrennol yn llai na'r hyn y dymunir ei gyfleu. Ond y gwrthwyneb i hynny sy'n wir pan ddefnyddir y geiriau i olygu eu hystyr ffigurol, sef 'llawer iawn o arian'. Yr un yw techneg y cyfarwydd pan ddywed Branwen am ei brawd, Bendigeidfran, 'llidyawc yw'. Nid 'y mae'n flin / yn grac' yw'r ystyr yma ond yn hytrach fod Bendigeidfran yn gandryll o'i go, yn gynddeiriog gyda'r Gwyddelod am amharchu Branwen yn y fath fodd.

Defnyddir techneg rhag-ddweud gan Bendigeidfran wrth iddo roi cyfarwyddiadau i'w osgordd ynglŷn â beth fydd yn digwydd iddynt unwaith fod ei ben wedi cael ei dorri. Y mae'n rhag-weld y byddant yn cymryd hydoedd i gario ei ben i Lundain i'w gladdu. Disgrifia'r daith yn ddaearyddol ac yn amseryddol a gall egluro ymlaen llaw natur hapus neu drist pob cyfnod yn y gwahanol noddffâu ar y ffordd. Proffwydoliaeth gryno yw hon o'r hyn a ddigwydd i'w ganlynwyr yn nes ymlaen.

Nid oedd y cyfarwyddiaid yn swil o ddefnyddio pathos yn eu perfformiadau er mwyn ennyn yn eu gwrandawyr deimladau tyner megis tosturi, cydofidio ag eraill, a chydymdeimlad. Y mae diweddsglo ceinciau'r gogledd, sef 'Branwen ferch Llŷr' a 'Math fab Mathonwy' yn manteisio'n agored ar y dechneg hon ac yn cloi mewn tristwch o'u cymharu â diweddsglo ceinciau'r de sy'n tueddu i fod yn fwy rhamantus neu ddoniol eu clo. Yn y gainc hon y mae Branwen yn dychwelyd o Iwerddon wedi cyfnod helbulus iawn yno. Unwaith y mae'n cyrraedd tir Môn ac yn cael hamdden ar lan afon Alaw i ystyried hanes ei bywyd yn Iwerddon, y mae tristwch ei sefyllfa yno yn peri loes dirdynnol iddi; dyry ochenaid fawr, a marw o dorcalon. Cleddir hi mewn bedd petryal yng nglan Alaw. Diweddsglo amhrisiadwy.

Rhoddir pwyslais haeddiannol ar y farwolaeth hon heddiw, ar dristwch

arteithiol Branwen, ac ar y disgrifiad o'i bedd. Ond tybed a oedd hyn yn rhan o'r stori wreiddiol? Neu a oedd y storiwr yn gwybod am fedd ym Môn ac wedi codi hynny i'w stori? Ai'r storiwr sydd wedi creu teimladrwydd ac anobaith sefyllfa alaethus a'u trosglwyddo i Branwen? Os bu Branwen farw o dorcalon yna a oedd hi'n eithriadol yn ei dydd? Ai dweud rhywbeth am Branwen y mae'r episod hwn neu ddweud rhywbeth am y storiwr? Efallai fod lle gan Branwen i dorri ei chalon yn Iwerddon, ond ai cyffyrddiad y cyfarwydd yw dod â hi yn ôl i Fôn i farw? Y mae ar gael yn y gwledydd Celtaidd gorff o storïau sy'n esbonio enwau lleoedd. Ai ceisio egluro lleoliad bedd arbennig y mae'r cyfarwydd drwy briodoli'r bedd hwnnw (yn ddi-sail, efallai) i Branwen, ac yn ail ai'r cyfarwydd a briodolodd farwolaeth Branwen (eto yn ddi-sail, efallai) i'w thorcalon er mwyn ennill y gynulleidfa?

NODIADAU

⁸ **dilit** Hen ffurf ar y berfenw *dilyn*, sy'n golygu yma 'ymroi i'.

¹⁰ **Matholwch** Brenin Iwerddon, sy'n dymuno priodi Branwen er mwyn ffurfio cynghrair cadarn rhwng Iwerddon a Chymru a chadarnhau'r ymrwymiad rhwng y ddwy wlad. Digwydd enw Matholwch Wyddel yn y Trioedd am iddo ddwyn y cyfrifoldeb am y fonclust ddyddiol a gawsai Branwen gan gigydd ei lys. Dyma un o 'Dair Gŵyth Balfawd Ynys Prydain', sef un o dair ergyd niweidiol a darawyd yn Ynys Prydain. Y ddwy ergyd arall oedd Gwenhwyfach yn taro Gwenhwyfar, a Golyddan Fardd yn taro Cadwaladr Fendigaid. Darlunnir Matholwch fel brenin gwan, sy'n orddibynol ar ei gynghorwyr a swyddogion ei lys.

¹⁰ **Branwen** Branwen ferch Llŷr, sef chwaer Bendigeidfran a Manawydan, a hanner chwaer Nisien ac Efnisien drwy ei mam, Penarddun. Fe'i darlunnir yn ferch hardd, gyfrifol a doeth, llawn dyfeisgarwch. Priododd Matholwch, brenin Iwerddon, yn arwydd o'r cytundeb gwleidyddol a ddaeth i fod rhwng y ddwy wlad, ond yr oedd ei bywyd personol yn drist iawn. Treuliodd fywyd anurddasol yn Iwerddon, er iddi esgor ar fab i barhau'r llinach frenhinol. Daeth yn achos cynnen rhwng Matholwch a Bendigeidfran ac yn achos

y rhyfel ffyrnig a fu rhwng lluoedd y ddau gan ddwyn dinistr llwyr i'r ddwy wlad a marwolaeth i'w brawd a'i mab ifanc. Dychwelodd Branwen i dir Môn a thorri ei chalon o dristwch. Fe'i claddwyd ar lan afon Alaw. Addasiad o *Bronwen* 'mynwes wen' yw ei henw, fe debygir. Fe'i henwir yn y Trioedd fel un o dri pherson a gafodd ei tharo, gw. y nodyn uchod ar **Matholwch** llinell 10.

13 **Efnys[s]en** Efnisien, hanner brawd Branwen, a ddisgrifir yn y gainc hon fel gŵr a barai ymladd rhwng brodyr hyd yn oed pan oeddynt yn caru ei gilydd fwyaf. Y mae ei enw yn egluro ei gymeriad. Ystyr *efnys* yw 'gelyniaethus, dicllon', a'r un elfen a welir yn *gwrthnysig*. Efnisien sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o ddrama'r chwedl hon oherwydd ei agwedd annhirion at y gymdeithas, ei safle fel cynhyrfwr dyfroedd ac un hawdd ei darfu. Oherwydd bod Branwen wedi'i haddo i Matholwch heb ei ganiatâd, y mae'n dial ar y Gwyddyl drwy anffurfio eu meirch. Yn ddiweddarach y mae Efnisien yn lluchio Gwern, mab Branwen a Matholwch, a symbol o'u huniad, i'r tân. Yn wir, y mae'n cyflawni anfadwaith ar anfadwaith. Serch hynny daw â chlod i'w enw ar y diwedd drwy ei weithred anhunanol yn neidio i'r Pair Dadeni a'i falurio, a thrwy hynny ddistrywio prif arf y Gwyddelod.

34 **Bendigeituran** Bendigeidfran fab Llŷr, neu Brân Fendigaid, cawr a oedd yn frenin ar Ynys y Cedyrn ac yn frawd i Branwen a Manawydan. Wrth groesi'r môr i Iwerddon i ymosod ar y Gwyddelod am sarhau ei chwaer, cerddodd drwy'r tonnau gwyllt gan nad oedd llong a'i cynhwysai. Gorweddodd dros afon Llinon er mwyn i'w filwyr groesi drosto yn niffyg pont. Ond er yr elfennau goruwchnaturiol yn ei ymarweddiad, y mae iddo hefyd elfennau cwbl ddynol ac y mae'n marw fel pob meidrol yn arall cyn diwedd y gainc. Digwydd *brân* yn aml yn y farddoniaeth gynnar yn epithet, neu'n ddisgrifiad sy'n cyfleu ystyr, am ymladdwr. *Brân* yw enw arwr y chwedl *Immram Brain*, 'Mordaith Brân', mewn Hen Wyddeleg a gellir ei unieithu yn y pen draw â Brân y Cymry.

36 **Idig uab Anarawc** Iddig fab Anarawg, sef un o'r negeswyr a aeth at Matholwch pan adawodd lys Bendigeidfran heb roi cyfrif am hynny; yr oedd hefyd yn un o'r saith tywysog a adawyd yn Ynys y Cedyrn pan aeth Bendigeidfran i Iwerddon. Gadawodd Bendigeidfran saith gweinyddwr i warchod ei deyrnas tra oedd ef yn mynd ar gyrch i Iwerddon: Caradog ap Brân, arweinydd ar y saith, ynghyd â Hefeydd Hir (yr epithet 'tal'), Unig

Glew Ysgwydd (gw. y nodyn isod llinell 57), Iddig fab Anarawg Walltgrwn (yr epithet 'crwn ei wallt'), Ffodor fab Erfyll, Wlch Minasgrwn (yr epithet 'gwefus o asgrwn'), a Llashar fab Llaesar Llaesgyngwyd (y mae ystyr yr epithet yn aneglur ond efallai 'ymosod hir ei barhad'); a Phendaran Dyfed yn llanc ieuanc gyda hwy. Lladdwyd Iddig a phump o'i gymdeithion gan Caswallon ap Beli pan oresgynnodd Caswallon Brydain. Deellir y *-d-* yn *Idig* i gynrychioli *-dd-*, a gallai fod yn darddiad Cymreig o *udd* yn golygu 'arglwydd'.

³⁶ **Eueyd Hir** Enw tad Rhiannon yn y gyntaf o'r Pedair Cainc yw Hefeydd Hen, yr un enw ag a geir yn yr ail gainc hon, gydag epithet gwahanol. Nid yr un dyn yw'r ddau.

⁴² **tryded prif rieni** Gallai'r *-e-* yn *tryded* fod yn hen orgraff am *-y-* ac y dylid darllen *trydyd*, sef 'un o dair', yn hytrach na 'third'. Heddiw enw ll. yw *rhieni* ond yn y testun enw un. ydyw yn golygu 'mam'. Nid yw'n gwbl addas fod Branwen yma yn cael ei galw yn 'un o dair prif fam' oherwydd nid oedd eto wedi rhoi genedigaeth i Gwern. Y ddwy 'brif fam' arall oedd, efallai, Rhiannon mam Pryderi, ac Arianrhod mam Lleu Llawgyffes, ond ni chofnodir enwau'r tair yn y Trioedd fel mamau gorau'r wlad, er bod Branwen yn cael ei henwi yn y triawd sy'n ymwneud â thair ergyd anffodus a fu yn Ynys Prydain. Efallai mai dyfais wneud ar ran awdur y gainc yw cyfeirio at y tair fel petaent wedi'u cynnwys ar restr y Trioedd dilys: ar y llaw arall efallai fod y cofnod amdanynt wedi'i golli'n llwyr o'r Trioedd.

⁴³ **Ynys y Kedeyrn** Ynys y Cedyrn, sef Ynys Prydain. Fe'i sillefir hefyd *Ynys y Kedyrn*, isod llinellau 135-6.

⁴⁵ **gwneit ... gwnelid** Dwy ffurf ar y ferf *gwneud*, sef yr amhff.amhrs.myn. *gwneid* a'r amhff.amhrs.dib. *gwnelid*, y naill yn cyfeirio at y weithred ei hun a'r amser pan gyflawnwyd y weithred honno, a'r llall, *gwnelid*, yn cyfeirio at yr amser cyn hynny, sef at y bwriad o weithredu.

⁴⁸⁻⁹ **tremic ... guare** 'gwaradwydd ... ystryw'. Ailadroddir yma ddefnydd Efnisien o'r gair *tremic*, uchod llinell 21. Teimla Efnisien iddo gael ei waradwyddo, a theimla Matholwch iddo yntau hefyd gael ei warthruddo; y mae'r ddau am fynnu iawndal.

⁵³⁻⁴ **nys gadwn** Mewn Cymraeg Canol ceid dwy ferf, sef *adaw* a *gadu*. Ystyr wreiddiol *gadu* oedd 'caniatáu' ac ystyr *adaw* oedd 'gadael ar ôl'. Mewn Cymraeg Diweddar aeth y ddwy ffurf yn un, sef *gadawaf*. Ond yma, ffurf 1 ll.dyf.myn. y ferf *gadu* 'caniatáu' a geir, gyda'r negydd *ni* + y rhagenw mewnol 3 un. 's.

- 56 **Manawydan uab Llyr** Manawydan fab Llŷr, sef brawd Branwen a Bendigeidfran, a hanner brawd Nisien ac Efnisien. Rhan anamlwg sydd iddo yn y chwedl hon: â gyda Bendigeidfran i ddial sarhad Branwen, ac enwir ef yn un o'r saith (a Branwen yn wythfed) a ddychwelodd i Gymru wedi'r gyflafan yn Iwerddon. Manawydan yw prif gymeriad y drydedd o'r Pedair Cainc, fodd bynnag, a'i enw ef a roddir yn deitl iddi. Ni ellir datrys yn hawdd y berthynas rhwng Manawydan fab Llŷr y Cymry a Manannán mac Lir, duw'r môr yn y chwedlau Gwyddelig. Er bod cyfatebiaeth rhwng y ddau enw, cymeriadau gwahanol iawn i'w gilydd yw'r ddau hyn, y naill yn ŵr gostyngedig a llariaidd a'r llall yn ddewin brith a'i fryd ar dwyll. Rhestrir Manawydan mewn dau o'r Trioedd: yn un o 'Dri Lleddf Unben Ynys Prydain' (un o dri arglwydd gwylaidd) ac yn un o 'Dri Aur Grydd Ynys Prydein' (un o dri chrydd aur).
- 57 **Unic Glew Yscwyd** Unig Glew Ysgwydd; ystyr yr epithet *Glew Ysgwydd* yw 'ag ysgwydd gadarn, gref', sy'n awgrymu gŵr dewr, arwrol. Posiblirwydd arall, mwy tebygol efallai, yw darllen yr epithet *Glew Ysgwyd*, sy'n golygu 'tarian gadarn', ond sy'n dwyn yr un arwyddocâd milwrol. Yma fe'i hanfonir at Matholwch i gynnig iawn am sarhad. Rhestrir ef hefyd yn un o'r saith a adewir yn Ynys y Cedyrn yn ystod ymweliad Bendigeidfran ag Iwerddon. Lladdwyd ef gan Caswallon ap Beli pan oresgynnodd hwnnw Brydain.
- 58 **wynepwerth** Yr ystyr yw 'pris ei anrhydedd, pris ei enw da', cf. yr ymadrodd *mae wyneb ganddo* ymddangos ar ôl troseddu. Telid iawndal am gamwri neu drosedd yn ôl statws cymdeithasol y derbynnydd.
- 59 **llathen aryant** Gweinyddwyd amrywiadau ar Gyfraith Hywel mewn llysoedd barn drwy Gymru yng nghyfnod cofnodi'r chwedl hon. Gellir dosbarthu'r amrywiadau yn dri grŵp, yn ôl enwau'r cyfreithwyr a nodir ynddynt, sef llawysgrifau Cyfnerth (a elwir hefyd yn 'ddull Gwent' ar y Gyfraith), llawysgrifau Blegywryd (a elwir hefyd yn 'ddull Dyfed'), a llawysgrifau Iorwerth (a elwir hefyd yn 'ddull Gwynedd') sy'n ddrych o sefyllfa gyfreithiol Gwynedd yn ystod teyrnasiad Llywelyn Fawr. Pe sarheid brenin Gwynedd, telid iddo wialen a phlât (= *clawr*) aur; pe sarheid brenin Dyfed telid iddo wialen arian a ffiol a phlât aur; a phe sarheid brenin Deheubarth telid iddo wartheg gwynion gyda chlustiau coch. 'Gwialen' yw ystyr *llathen* yma, nid mesur ychydig yn llai na metr, fel heddiw. Y mae'n ddiddorol mai gwialen arian yn hytrach nag aur a gaiff Matholwch,

ac na thelir iddo felly iawn cyfwerth ag a delid i Bendigeidfran pe byddid wedi ei sarhau ef. Ni chaiff gynnig y ffiol aur a roddid yn iawndal i frenin Dyfed ychwaith. Tybed ai dyma pam yr edliwir maint y taliad yn nes ymlaen? Yn sicr nid ystyrid brenin Iwerddon i fod o'r un statws â Bendigeidfran, a barnu oddi wrth y taliadau hyn.

- ⁵⁹ **kyuref** [a'e uys bychan] a **chyhyt ac ef e hun** Ni fyddai 'mor drwchus ac mor dal ag ef ei hun' yn gwneud synnwyr yn ôl y Gyfraith, ac felly fe ychwanegwyd, ar sail testun Cyfraith Gwynedd, yr ymadrodd *a'e uys bychan* gan mai yng Ngwynedd y lleolir y chwedl hon.
- ⁷⁰ **pebylleu ... palleu** Golyga'r ddau air yr un peth yma, ond nid felly bob tro. *Pebyll* oedd y ffurf un. yn wreiddiol a *pebylleu* y ffurf l. Cyfosodir y ddeuai'r hefyd yng ngwaith Cynddelw Brydydd Mawr, *Ei bebyll, ei byll, ei ball coch* gan gyfeirio at babell, gwisg, a mantell goch Owain Cyfeiliog, gŵr o linach tywysogion Powys a fu farw yn 1197.
- ⁷³ **ymdidan** Gair diddorol yw'r gair *ymdidan* yn yr Oesoedd Canol. Ei ystyr gyntaf yw 'sgwrsio', ond y mae iddo hefyd ail ystyr, sef 'adrodd stori dda'.
- ⁸² **peir** Y mae'r Pair Dadeni yn elfen bwysig yn y chwedl hon ac yn y chwedlau Celtaidd yn gyffredinol. Hynodrwydd y Pair oedd y gallai atgenhedlu cyrff meirw dim ond i rywun eu taflu i mewn iddo. Dros nos, gallai ddwyn bywyd iddynt o'r newydd, gydag un diffyg, sef na allai'r cyrff newydd siarad. Yr oedd mudandod yn arwydd o'r byd arall. Dinistrir y Pair ar dir Iwerddon pan neidia Efnisien iddo ynghanol brwydr a'i dorri'n bedwar darn.
- ⁸⁶ **kymwt** Rhennid y wlad yn gantrefi, sef yn gant o 'drefi' = ffermydd neu unedau amaethyddol. Yna, rhennid pob cantref yn ddau neu dri chwmwd ac fe elwid dyn a drigai yn yr un cwmwd â chi yn 'gymydog'.
- ⁸⁸ **Tal Ebolyon** Talybolion, neu Tâl Ebolion, yn wreiddiol *Tal y Bolion* gan fod y *ac e* yn ymgyfnewid. Ystyr *tal* yw 'pen' neu 'ben draw', a gall *bol* olygu naill ai 'ceudod' neu 'chwydd', felly 'pen draw ceudod', sef corsydd, neu 'ben draw chwydd', sef bryncyn, yw'r ystyr. Pa un bynnag a ddewisir, stori onomastig yw hon, a'i bwriad yw esbonio enw lle anodd iawn, fel y byddai disgwyl i gyfarwydd cydwybodol ei wneud yn y cyfnod hwn. Efallai y dylid cymharu'r enw lle hwn ag enwau lleoedd yn Iwerddon sy'n gytras ag ef, megis Dunbolg a Mag-bolg.
- ⁹⁵ **somm** 'Twyll' neu 'ystryw' yw'r ystyr yma, nid 'siom' fel heddiw.
- ¹¹⁰ **Kaer Seint yn Aruon** Caer Saint yn Arfon, sef Caer-yn-Arfon, heddiw

Caernarfon. Cadwyd yr elfen *Seint* (o *Segontium*) yn enw afon Saint, a Pont Saint. Mewn cynulliad, yn *dadleu*, yng Nghaernarfon yr oedd Bendigeidfran pan ddaeth yr aderyn ato, ac y mae'r ffurf *dadleu* yn gytras â'r enw Gwyddeleg ar Senedd Iwerddon, y *Dáil*.

- ¹⁴⁸ **Llinon** Afon Shannon, neu mewn Gwyddeleg *Sinann*. O flaen *-i-* seinir *s-* yn *sh-* mewn Gwyddeleg, ond nid oedd y sain honno yn bod mewn Cymraeg Canol, a'r peth tebycaf iddi oedd *ll-*. Ynganiad y Gwyddel a roddodd fod i'r ffurf Gymraeg *Llinon* ar yr afon felly, a chan fod gair Cymraeg *llinon* yn cael ei arfer ar y pryd i olygu 'gwaywffon', yr oedd yn ychwanegiad naturiol i ystyr y gair.
- ¹⁵⁵ **a uo penn bit pont** 'A fo ben, bid bont', dihareb Gymraeg y mae ei ffynhonnell yn y chwedl hon. Stori onomastig yw'r darn hwn felly, yn esbonio tarddiad y ddihareb. Ei hystyr yw, 'Y sawl sy'n bennaeth, bydded yn bont': dylai'r arweinydd wneud bywyd ei ddilynwyr yn haws a'u helpu i groesi afon Llinon drwy wneud pont o'i gorff ei hun er mwyn i'w ganlynwyr fedru cerdded drosto. Yn ffigurol, yr ergyd yw y dylai arweinydd bontio pob afon, sef bod yn gymorth i'w ddeiliaid i oresgyn pob rhwystr arall y dônt wyneb yn wyneb ag ef, a hynny *am* ei fod yn arweinydd, yn hytrach nag *er mwyn dod* yn arweinydd.
- ¹⁸² **Pryderi** Dyma'r unig gymeriad sy'n ymddangos ym mhob un o'r Pedair Cainc ac efallai mai o'i gwmpas ef y lluniwyd y stori gyfan, yn wreiddiol. Rhan fechan iawn sydd iddo yn y gainc hon ond rhan bwysig gan ei fod yn cael ei enwi'n gyntaf o'r saith a ddychwelodd o Iwerddon.
- ¹⁸² **Gliuieu eil Taran** Ystyr *ail* yw 'mab, olynydd, etifedd', felly Glifiau ap Taran.
- ¹⁸³ **Talyessin** Taliesin, bardd o'r chweched ganrif sy'n ymddangos mewn chwedlau hanner-mytholegol diweddarach, megis y darn hwn. Cysylltir y cyrch hwn ar Iwerddon â chyrch y Brenin Arthur ar Annwfn (sef yr isfyd Celtaidd) y rhoddir braslun o'r hanes yn y gerdd 'Preiddiau Annwfn' (sef Ysbail yr Isfyd) a gofnodwyd yn Llyfr Taliesin, cyfrol o gerddi a briodolwyd i'r Taliesin hwn. Dwyn Pair Pen Annwfn oedd bwriad Arthur, a hynodwyd y Pair oedd mai anadl naw morwyn oedd yn ei gynhesu ac na fyddai'n darparu bwyd ar gyfer dyn llwfr. Bu'r ymgyrch yn fethiant a dim ond saith milwr a ddychwelodd.
- ¹⁸³ **Ynawc** Cred rhai mai Ynawc Gruddiau fab Muriel yw enw'r milwr hwn, ond

er mwyn cael saith enw fod awdur, neu gopiïdd, y gainc wedi rhannu'r enw er mwyn cael cofnod o saith person yn hytrach na chwech.

183 **Grudyeu uab Muryel** Gruddiau fab Muriel; gw. y nodyn uchod ar Ynawc.

183 **Heilyn uab Gwyn Hen** Ystyr *Heilyn* yw 'darparwr, arlwywr', yn arbennig 'un sy'n gweini diod'.

185 **y Gwynuryn yn Llundain** Yn ôl traddodiad, y man lle saif Tŵr Llundain heddiw yw'r safle hwn, ond nid oes rheswm dros wrthod y safle lle saif St. Paul's ychwaith.

186 **Hardlech** Heddiw Harlech, a'i ystyr yw 'llech hardd'. Yn Aberffraw yr oedd priflys Bendigeidfran ond yr oedd ganddo lys arall yn Harlech, un o nifer. Dyma lle y cynhaliwyd y gyntaf o'r gwleddoedd hir ac fe barodd am saith mlynedd.

187 **Adar Riannon** Yr oedd tri ohonynt: yn y chwedl hon y maent yn canu'n hudolus dros y môr yn Harlech ac yn diddori gwesteion Bendigeidfran. Yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' dywedir mai eu hynodrwydd oedd eu bod yn canu mor swynol byddent yn 'dihuno'r marw ac yn huno'r byw', a gesyd Ysbaddaden Bencawr y dasg o'u dal i Culhwch, ei ddarpar fab yng nghyfraith. Un o nodweddion y byd arall yw gwleddoedd sy'n parhau, a dyna a geir yma yng nghwmni'r adar hyn o'r byd arall.

189 **Guales ym Penuro** Cynhaliwyd yr ail wledd hir yng Ngwales, sef Ynys Grassholm, wyth milltir i'r môr o sir Benfro, ac fe barodd y wledd am bedwar ugain mlynedd. Motîff adnabyddus yw fod hapusrwydd gwledd yn dibynnu ar agor neu ar beidio ag agor drws. Yng Ngwales yr oedd tri drws, dau ddrws agored ac un ynghau. Wynebai'r drws caeedig Gernyw, a hyd nes agorid ef byddai'r wledd yn un helaeth a llawen, ac ni fyddai neb yn heneiddio. Ceir yr un motîff rhyngwladol yn un o straeon 'Y Mil Noswaith ac Un' (sef *The Arabian Nights*), lle'r adroddir hanes gŵr yn cael ei gipio i baradwys Ddwyreiniol; caiff agor 39 o'r deugain drws sydd yno, ond nid y deugeinfed. Pan aiff chwilfrydedd yn drech nag ef ar y deugeinfed diwrnod, y mae'n agor y drws ac o fewn eiliad hedfana ceffyl adeiniog heibio a'i gario o baradwys.

190 **Aber Henuelen** Y môr rhwng Cymru a Chernyw. Heilyn ap Gwyn oedd yr un yr aeth chwilfrydedd yn drech nag ef. Agorodd y drws i edrych ar Gernyw ac Aber Henfelen. Hyd hynny nid oedd y gofid y gwelsent eraill yn ei ddioddef o flaen eu llygaid na'r gofid a gawsent eu hunain yn rhan

o'u cof, ond unwaith yr agorwyd y drws ffrydiodd yr atgofion yn ôl, ac yn arbennig hynt angheuol eu harglwydd, Bendigeidfran. Daeth yn amser iddynt deithio i Lundain i gladdu'r pen.

193-4 y seithwyr hynn Y saith a ddihangodd o Iwerddon oedd Pryderi, Manawydan, Glifiau ap Taran, Taliesin, Ynawg, Gruddiau fab Muriel, a Heilyn ap Gwyn Hen.

194 Aber Alau yn Talebolyon Aber afon Alaw yng nghwmwd Talybolion yng ngogledd-orllewin Ynys Môn, gyferbyn ag Ynys Cybi, gw. y nodyn uchod ar Tal Ebolyon llinell 88.

GEIRFA

8 dilit	dilyn, canlyn ar, ymroi i	25 a ellit	y gellid ei wneud
11 a orugant	a wnaethant	27 llygru	sbwyllo
12 ymaruar	trafod	27 mwynyant	defnydd
12 rannat	llety, <i>billeting</i>	30 dioer	Duw a wŷr
12 rannu	lletya, <i>to billet</i>	30 eres	rhyfedd
13 kyueir	rhanbarth	31 kyuurd	mor uchel ei statws
13 dydgueith	un diwrnod	31 y chenedyl	ei thylwyth
13 nachaf	wele	32 ti a wely	fe weli ei egluro,
14 anagneuedus	anhangnefeddus, anheddychlon	dangos, [os] ef	os felly
14 dywanu y	taro ar, digwydd dod at	33 arouun	arofun, ceisio, anelu at
15 pioed	pwy oedd biau	34 adaw	gadael
16 wy	hwy	35 heb ganhyat	heb ganiatâd
18 yr gyscwys	y mae wedi cysgu	37 godiwawd	cyrraedd at, dod at
21 y rodi	ei rhoi	37 darpar	bwriad
21 uyghanyat	fy nghaniatâd	39 pei ys gwyppwn	pes gwyddwn, petaswn i'n gwybod hynny
21 tremic	sarhad	39 cwbyl	llwyr, cyflawn
22 guan y dan	aeth i fyny at	40 duc	dygodd
22 guefleu	gweflau, gwefusau	40 kyrch	siwrnai, <i>expedition</i>
23 rawn	cynffon	40 no'r dugum	nag yr wyf wedi ei ddwyn
23 keuyn	cefn	40 rygyueryw	a gyfarfu
23 ny caei graf	yn y caei graff, yn y lle y câi afael	42 tryded prif rieni	un o dri phrif riant
24 llad	torri	46 o uod	o fodd, o wirfodd, drwy ewyllys
25 hyd nat	fel nad	46 a uedei	a feddai, a reolai
25 grym	defnydd	47 a chyt bo	ac er bod

49 guare	ystryw, gêm, tric	99 a'y chymell	a'i gorfodi
50 uy	dileu fy ngwaradwydd	99 dryllyaw	torri
niwaradwydaw		100 y foen	ei chosb
51 ymchwelwys	dychwelodd	101 weithon	yn awr
51 parth a	tua	102 yscraffeu	cychod rhwyfo mawr,
53 ymwaret	gwaredigaeth, mantais		llongau bychain
58 o'r a lygrwyd	o'r rhai a sbwyliwyd	102 corygeu	coryglau
58 y gyt a	ynghyd â	102 a del	a ddêl [o gwbl]
58 yn wynepwerth	yn bris ei anrhydedd,	105 blwynyded	blwynyddedd,
idaw	yn iawndal yn ôl ei		blynyddoedd
	statws cymdeithasol	106 ar dal y noe	ar ymyl ei phadell
59 llathen	gwialen		dyfino
59 kyuref	mor drwchus â	107 y ryw wr	pa fath wr
59 clawr	plât	107 dwyn llythyr	llunio llythyr
60 kyflet a	mor llydan â		[yn sôn am]
60 pa ryw wr	pa fath wr	107 poeneu	cosbau
60-1 a phan yw o'm	ac mai o'm hanfodd,	108 eskyll	adenydd
anuod	ac mai yn erbyn	110 yn dadleu	mewn cynulliad,
	fewyllys		mewn cyfarfod
61 y may	mai	111 dydgweith	un diwrnod
63 ar y llun	yn y modd	111 garwhau	ysgwyd ei phlu/blu
68 a uei uwy	a fyddai'n fwy	y phluf	
68 iawn	iawndal	111 arganuwyd	darganfuwyd
68-9 disgynnu ... ar	penderfynu	112 adnabot	sylweddoli
70 kyweiraw	paratoi	113 yg kyuaned	ymhlith pobl
70 palieu	pebyll	114 darllewyd	darllenwyd
70 ar ureint	yn y modd y trefnir,	115 o glybot	o glywed
kyweirdeb	yn ôl defod	117 dygyuoryaw	ymgynnull [milwyr],
74 ardiawc	difywyd		casglu [milwyr]
75 a'y lywenyt yn	a'i lawenydd yn gyson		ynghyd
wastat		120 meicheit	ceidwaid y moch
76 athrist	trist iawn	120 y weilgi	y môr
76 bychanet	gan mor fychan,	121 e dremynt	yr olygfa
	gyn lleied	124 chwedleu	newyddion
78-9 wrth dy	yn ôl dy ewyllys	125 rywelsom	yr ydym wedi gweld
uynnu		127 llyna	dyna
81 telediawf	gwnaf yn fwy cyflawn	127 eres	hynod, rhyfedd
82 kynneddyf	hynodrwydd	129 eskeir	cefnen
83 llyueryd	lleferydd, dawn siarad	129 aruchel	uchel iawn
85 tra barhawd	tra parhaodd	131 a wypo	a all wybod
	[y cyflenwad o]	131 y wrth	am
87 cwbyl idaw	ei dâl yn gyflawn	133 kennadeu	negeswyr
y dal		135 kyn ny bwyf	er nad wyf
87 dodet ar	rhoddwyd [yr enw] ar	136 dyuot drwod	dod drosodd
94 ymodwrd	twrwr, helynt	137 a welat	a welwyd
95 somm	twyll	138 gwernenni	mastiau
96 y urodyr maeth	ei frodyr maeth	140 dyuot y ueis	gan gerdded
96 lliwaw	edliw, dannod	141 y kyngthanei	y cynhwysid
97 dygyuor	terfysg, cyffro, berw	145-6 holl	holl benrhynnau
98 sarahet	sarhad	uorbennyd	

148 gadu	gadael
148 y rot	rhyngot
149 mein sugyn	cerrig sugno
150 a gyllyssant	a gilyasant
153 kynnedyf	cynneddf,
	hynodrwydd,
	gallu arbennig
154 mae dy	beth yw dy gyngor ...?
gynghor ...?	
155 a uo penn	y sawl sydd yn
bit pont	bennaeth bydded
	yn bont
156 y diharebir	sy'n ddihareb fyth
etwa ohonaw	
172 kalaned	cyrff meirw
172 yny uei	hyd oni fyddai
172 kyuodyn	cyfodent
173 dywedut	siarad, llefaru
174 genni	cael ei gynnwys,
	cael lle [yn]
174 heb enni yn	heb fod lle mewn un
un lle	man, heb gael eu
	cynnwys yn unman
175 y'r wydwic	y pentwr anferth
176 meuyl ymi	cywilydd arnaf
176 gwaret rac	gwaredigaeth rhag
177 ymedyryaw	ymwthio, ymguddio
177-8 bonllwm idaw	tin noeth ato, cefn
	noeth ato
178 yn rith	ar ffurf
178 emystynnu	ymestyn ohono
idaw	
179 yny dyrr	hyd oni thorrodd
	(enghraifft o amser
	pres. y ferf yn
	cyfeirio at yr amser
	grff.)

179 dryll	darn
179 o hynny	oherwydd hynny
180 y meint goruot	cymaint o
a uu	fuddugoliaeth
	a fu, hynny o
	fuddugoliaeth a fu
180 ny bu oruot	ni fu buddugoliaeth
181 diang	dianc
181 brathu	clwyfo
182 sef	dyma
182 a dienghis	a ddihangodd
184 peris	parodd
184 llad	torri [ymaith]
185-6 a'y wyneb ar	a'i wyneb yn edrych
Freinc	tua Ffrainc
187 ar ginyaw	yn ciniawa,
	yn gwledda
188 y gedymdeithas	ei gymdeithas,
	ei gwmni
190 y tu ar	i gyfeiriad
191 dilwgyr	heb ei lygru
192 drwod	drosodd
193 llas	torrwyd
193 gantu	ganddynt
196 gorfowys	gorffwys
198 a welei ohonunt	cymaint a welai
	ohonynt
200-1 da a dwy ynys	dwy ynys dda
204 petrual	sgwâr

CWESTIYNAU TRAFOD

- Ni roddwyd 'Branwen ferch Llŷr' yn deitl i'r chwedl hon hyd y ganrif ddiwethaf. A ydych yn berffaith fodlon arno fel teitl?
- I ba raddau y mae 'Branwen ferch Llŷr' yn chwedl naturiolaid, sy'n trafod y byd real, ac i ba raddau y mae'r goruwchnaturiol yn ei amlygu ei hunan?
- Pa bwyslais a roddir ar foeseg ac iawn ymddygiad yn y chwedl hon?
- Beth a ddysgir am safle'r ferch yn yr Oesoedd Canol o'r chwedl hon? A yw rhai o'r chwedlau eraill yn ategu neu'n gwrth-ddweud hynny?
- A yw'r newid yng nghymeriad Efnisien o fod yn anheddychwr neu'n gythryblwr i fod yn arwr yn argyhoeddi?
- Pa ran a allai Nisien fod wedi ei chwarae yn y gainc hon? A yw'n haeddu'r enw 'heddychwr'?
- Faint o fuddugoliaeth a enillodd milwyr Ynys y Cedyrn, ac a oedd honno yn wir fuddugoliaeth?
- Sut y mae arddull y chwedl yn atgyfnerthu'r ddrama?